

Meithrin Cydnerthedd Lleol

Addasu i'r hinsawdd yn awdurdodau lleol y DU

Mawrth 2023



Ynglŷn â CDP

Mae CDP yn gwmni nid-er-elw byd-eang sy'n rhedeg system datgelu amgylcheddol y byd ar gyfer cwmnïau, buddsoddwyr, awdurdodau cyhoeddus, dinasoedd, gwladwriaethau a rhanbarthau. Yn 2022, adroddodd bron i 20,000 o gwmnïau, dinasoedd, gwladwriaethau a rhanbarthau ddata trwy CDP, sy'n gynnydd o 38% ers 2021. Dyma'r nifer fwyaf erioed o ddatgelwyr amgylcheddol newydd a welodd CDP ers ei sefydlu dros ddau ddegawd yn ôl. Mae CDP yn cyd-fynd yn llwyr ag amcanion [TCFD](#), ac yn dal y gronfa ddata amgylcheddol fwyaf yn y byd. Defnyddir sgoriau CDP yn eang wrth wneud penderfyniadau buddsoddi a chaffael wrth weithio tuag at economi di-garbon, gynaliadwy a chydnerth. Ewch i [cdp.net](#) neu dilynwch ni @CDP i gael gwybod mwy.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan ddefnyddio'r data a adroddwyd i CDP gan awdurdodau lleol y DU trwy [CDP-ICLEI Track](#) yn 2022. CDP-ICLEI Track yw prif lwyfan a mecanwaith atebolrwydd cynnydd y byd o ran dinasoedd yn adrodd ar yr hinsawdd. Roedd 60 o awdurdodau lleol y DU wedi adrodd erbyn Medi 30, 2022, ac mae'r wybodaeth yn seiliedig ar yr ymatebion hynny. Gellir lawrlwytho ein cyfresi data ffynhonnell agored am ddinasoedd, gwladwriaethau a rhanbarthau am ddim o'n [Porth Data Agored](#).

Am fwy o wybodaeth yngylch sut mae dinasoedd y DU yn datgelu ffigyrâu, anfonwch e-bost at citiesemea@cdp.net.



Cynnwys

- 04 Termau**
- 05 Cipolwg ar awdurdodau lleol y DU yn 2022**
- 07 Cyflwyniad i risg a chydnerthedd**
- 08 Deall effeithiau newid hinsawdd ar y DU**
- 12 Rhwystrau sy'n atal awdurdodau lleol y DU rhag addasu i'r hinsawdd**
- 14 Addasu i'r hinsawdd ar waith: llwyddiant yn y DU**
- 17 Y camau nesaf i awdurdodau lleol y DU**
- 19 Adnoddau**

Rhybudd Pwysig

Gall unrhyw un ddefnyddio'r adroddiad hwn ar yr amod y cydnabyddir CDP. Nid yw hyn yn golygu y gellir ail becynnau nac ailwerthu unrhyw elfen o'r cynnwys heb ganiatâd penodol CDP ac ICLEI.

Mae CDP wedi paratoi'r data a'r dadansoddiad yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ymatebion awdurdodau lleol y DU i'r 'Cities 2022 Questionnaire'.

Mae'r holl wybodaeth a safbwytiau a fynegwyd yma gan CDP yn seiliedig ar eu dyfarniad adeg yr adroddiad hwn a gellir eu newid heb rybudd. Mae sylwebaethau gwadd, ble y'u cynhwysir yn yr adroddiad hwn, yn adlewyrchu barn eu priod awduron; nid yw eu cynnwys yn gymeradwyaeth iddynt.

Mae'r cyfeiriad at "ddinas" yn yr adroddiad yn berthnasol i unrhyw endid a gyflwynodd ddata trwy'r 'Cities 2022 Questionnaire' ar CDP-ICLEI Track. Mae'r dadansoddiad yn cynnwys data o ddinasoedd neu, mewn rhai achosion, grwpiau o ddinasoedd ar wahanol lefelau gweinyddol a adroddwyd yn 2022. Mae hyn yn cynnwys ardaloedd metropolitan, awdurdodau cyfun, a rhai cynghorau rhanbarthol.

Mae 'CDP' yn cyfeirio at CDP Worldwide, rhif elusen gofrestredig 1122330 a chwmni cyfyngedig drwy warant, sydd wedi'i gofrestrebu yn Lloegr gyda'r rhif 05013650.

Termau¹

Addasiad = Y broses o addasu i newid hinsawdd wirioneddol neu ddisgwyliedig a'i effeithiau i liniaru, niweidio neu fanteisio ar gyfleoedd buddiol.

Cydnethedd = Gallu systemau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol i ymdopi â digwyddiad neu duedd neu aflonyddwch peryglus, gan ymateb neu aildrefnu mewn ffyrdd sy'n cynnal eu swyddogaeth hanfodol, eu hunaniaeth a'u strwythur gan gynnal y gallu i addasu, dysgu a thrawsnewid hefyd.

Gallu Addasol = Gallu systemau, sefydliadau, bodau dynol ac organebau eraill i addasu i ddifrod posibl, i fanteisio ar gyfleoedd, neu i ymateb i ganlyniadau.

Risg = Y posibilrwydd o ganlyniadau niweidiol lle mae rhywbeth o werth yn y fantol a lle mae digwyddiad a gradd canlyniad yn ansicr. Mae risg yn deillio o'i ymwneud â bregusrwydd (o'r system yr effeithir arno), ei amlygiad dros amser (i'r perygl), yn ogystal â'r perygl (sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd) a'r tebygolrwydd y bydd yn digwydd.

Perygl = Digwyddiad neu duedd ffisegol posibl naturiol neu ddynol a allai achosi marwolaeth, anaf, neu effeithiau eraill ar iechyd, yn ogystal â difrod a cholled i eiddo, seilwaith, bywoliaethau, darpariaeth gwasanaethau, ecosystemau ac adnoddau amgylcheddol.

Bregusrwydd = Y duedd neu'r rhagduedd i gael eu heffeithio'n andwyol. Mae bregusrwydd yn cwmpasu amrywiaeth o gysyniadau ac elfennau gan gynnwys sensitfrwydd neu dueddiad i niwed a diffyg gallu i ymdopi ac addasu.

Asesiad risg a bregusrwydd hinsawdd (CRVA) = Mae asesiad risg hinsawdd yn ceisio deall y tebygolrwydd o berylon hinsawdd yn y dyfodol ac effeithiau posibl y perylon hyn ar ddinasoedd a'u trigolion. Dyma wybodaeth sylfaenol ar gyfer gweithredu a buddsoddi blaenoriaethau addasu a chydnerthedd yn yr hinsawdd².


Cynllun Addasu = Cynllun cyffredinol o weithredu er mwyn mynd i'r afael ag effeithiau newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys amrywoldeb yn yr hinsawdd ac eithafion³.

1. IPCC, 2018: Annex I: Glossary [Matthews, J.B.R. (ed.)]. In: Global Warming of 1.5°C. An IPCC Special Report on the impacts of global warming of 1.5°C above pre-industrial levels and related global greenhouse gas emission pathways, in the context of strengthening the global response to the threat of climate change, sustainable development, and efforts to eradicate poverty.
2. C40 Cities (2018) Climate Change Risk Assessment Guidance.
3. Mimura, N., R.S. Pulwarty, D.M. Duc, I. Elshinnawy, M.H. Redsteer, H.Q. Huang, J.N. Nkem, and R.A. Sanchez Rodriguez, 2014: Adaptation planning and implementation. In: Climate Change 2014: Impacts, Adaptation, and Vulnerability. Part A: Global and Sectoral Aspects. Contribution of Working Group II to the Fifth assessment Report of the IPCC.



Cipolwg ar Awdurdodau Lleol y DU yn 2022

Yn 2022 adroddodd 60 o awdurdodau lleol y DU eu data ar yr hinsawdd trwy CDP-ICLEI Track⁴



Llwyddodd 19 o awdurdodau lleol y DU i gyrraedd rhest 2022 Cities A List:

Cyngor Dinas Belfast	Cyngor Swydd Essex	Dinas Manceinion	Cyngor Bwrdeistref Reading	Cyngor Wandsworth
Cyngor Dinas Dundee	Cyngor Dinas Leeds	Manceinion Fwyaf	Cyngor Richmond	Awdurdod Cyfun Gorllewin Canolbarth Lloegr
Cyngor Dinas Caerredin	Dinas Caerlŷr	Cyngor Dinas Newcastle	Cyngor Dinas Sunderland	Cyngor Dinas Efrog
Bwrdeistref Llundain Enfield	Awdurdod Llundain Fwyaf	Cyngor Dinas Nottingham	Cyngor Bwrdeistref Swale	

4. Dyma faint o awdurdodau lleol a DU a oedd wedi adrodd erbyn 30 Medi 2022 ac nid yw'n adlewyrchu cyfanswm y nifer a ddatgelodd wybodaeth yn 2022.

Mae'r 60 awdurdod lleol hyn yn y DU yn cynrychioli:

31%

o allyriadau'r DU




45%

o boblogaeth y DU



59%


o gdp y DU




Wedi adrodd am asesiad
risg a bregusrwydd
hinsawdd




Wedi adrodd am
darged lleihau
allyriadau




Wedi adrodd am
gynllun lliniaru




Wedi adrodd am
gynllun addasu



Wedi adrodd am
nod addasu



Yn rhoi sylw i natur
yn eu cynllun addasu



Wedi adrodd am
gydweithrediad
dinas-busnesau

Cyflwyniad i risg a chydnerthedd



**Yn ystod haf 2022,
cyrhaeddodd y
tymheredd 40.3C,
gan osod y record
uchaf yn y DU**

77%

**o awdurdodau lleol y
DU a adroddodd drwy
CDP-ICLEI Track yn
2022 gynllun addasu i'r
hinsawdd**

97%

**ohonynt yn gweithredu
camau addasu**

Datganodd Chweched Adroddiad Asesu'r IPCC yn glir iawn bod newid yn yr hinsawdd a'i effeithiau cysylltiedig ar y twydd eisoes wedi arwain at effeithiau di-droi'n-ôl ar natur a phobl, a rhagwelir y bydd yr effeithiau hyn yn gwaethgu os nad ydym yn gweithredu nawr.

Fel y mae pethau ar hyn o bryd, mae rhwng 3.3 a 3.6 biliwn o bobl eisoes yn agored iawn i newid hinsawdd⁵, gan dynnu sylw at yr angen brys am fesurau addasu a fydd yn amddiffyn y rhai sydd fwyaf mewn perygl.

Gall deall effeithiau newid yn yr hinsawdd a meithrin cydnerthedd ddod â llawer o gyfleoedd, o well seilwaith a chynllunio buddsoddi i les a chydweithio cymunedol⁶. Gall hyrwyddo meddwl mwy hirdymor a rhngddisgyblaethol, yn ogystal ag ystwythder mewn sefydliadau i ymateb i amgylchedd sy'n newid⁷.

Ar lefel fydd-eang, arweiniodd COP27 at gytundeb i greu cronfa golled a difrod i wledydd sydd fwyaf agored i niwed effeithiau newid hinsawdd⁸. Yn ogystal, parhaodd gwledydd i weithio ar y 'nod addasu byd-eang, a luniwyd yng Nghytundeb Paris 2015 a'i lansio fel rhan o Raglen Waith ddwy flynedd Glasgow – Sharm el-Sheikh ar y Nod Byd-eang ar Ymaddasu yn COP26. Ar ben hynny, yn COP27 cyhoeddodd llywodraeth y DU y bydd yn ymrwymo i dreblu cyllid ar gyfer addasu i'r hinsawdd o £500m yn 2019 i £1.5bn yn 2025 fel rhan o gyllideb cyllid hinsawdd ryngwladol y DU⁹.

Yn haf 2022, cyrhaeddodd y tymheredd 40.3°C, gan dorri record yn y DU¹⁰. Yn ogystal, mae sawl rhan o'r DU yn dioddef llifogydd blynnyddol gyda chofnodion sy'n dangos bod y pum gaeaf gwlypaf wedi digwydd ers 1990¹¹.

Mae awdurdodau lleol y DU yn dangos eu hymrwymiad i addasu i'r hinsawdd. O blith awdurdodau lleol y DU a adroddodd i CDP-ICLEI Track yn 2022, mae gan 77% gynllun addasu i'r hinsawdd ac mae 97% yn gweithredu camau addasu. Gyda'u hymroddiad i weithredu ar yr hinsawdd ac agosrwydd at gymunedau, gall awdurdodau lleol roi gwybod yn gywir am effeithiau ffisegol a chymdeithasol newid yn yr hinsawdd, yn ogystal â gweithredu camau addasu effeithiol a theg.

Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at yr heriau y mae awdurdodau lleol yn eu hwynebu wrth addasu i newid yn yr hinsawdd, yn ogystal â'r arweinyddiaeth a'r arferion da sy'n gwella cydnerthedd a chefnogi cymunedau.

5. IPCC (2022) IPCC Sixth Assessment Report; Summary for Policymakers, Headline Statements. Ar gael yn: <https://www.ipcc.ch/report/ar6/wg2/resources/spm-headline-statements/>

x6. CDP (2018) Cities at risk: dealing with the pressure of climate change. Ar gael yn: <https://www.cdp.net/en/research/global-reports/cities-at-risk>

x7. Adaptation Scotland (2019) Scotland Adapts: A Capability Framework for a Climate Ready Public Sector. Ar gael yn: <https://www.adaptationscotland.org.uk/how-adapt/your-sector/public-sector/>

8. United Nations: Climate Change (2022) 'COP27 Reaches Breakthrough Agreement on New "Loss and Damage" Fund for Vulnerable Countries'. Ar gael yn: <https://unfccc.int/news/cop27-reaches-breakthrough-agreement-on-new-loss-and-damage-fund-for-vulnerable-countries>

9. UK Government (2022) UK announces major new package of climate support at COP27. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/news/uk-announces-major-new-package-of-climate-support-at-cop27>

10. Met Office (2022) Record high temperatures verified. Ar gael yn: <https://www.metoffice.gov.uk/>

11. Kendon, M., McCarthy, M., Jevrejeva, S., Matthews, A., Sparks, T., Garforth, J., & Kennedy, J. (2022). State of the UK Climate 2021. International Journal of Climatology, 42(Suppl. 1)(S1), 1–80. <https://doi.org/10.1002/joc.7787>

Deall effeithiau newid hinsawdd ar y DU



98%


o awdurdodau lleol y DU yn adrodd o leiaf un perygl hinsawdd



78%

o'r rhai a adroddodd beryglon hinsawdd yn dweud fod newid hinsawdd yn effeithio ar iechyd y cyhoedd

Mae'r DU eisoes yn profi effeithiau sylweddol o ganlyniad i newid hinsawdd. Ers 2018, mae canran yr awdurdodau lleol sy'n adrodd peryglon hinsawdd wedi cynyddu'n barhaus, gan ddangos cynnydd ym mha mor gyffredin yw peryglon hinsawdd yn y DU, ac ymwybyddiaeth ohonynt. Mae'r data a adroddwyd i [CDP-ICLEI Track](#) yn rhoi trosolwg o'r peryglon hinsawdd a brofir a'u heffeithiau ar eu cymunedau.



5

O'r peryglon hinsawdd a adroddir amlaf:



Gwres llethol



Afonydd yn gorlifo



Llifogydd trefol



Glaw trwm



Llifogydd arfordirol

5

Grŵp a nodwyd amlaf fel mwy tebygol o ddioddef peryglon hinsawdd:



Cartrefi incwm isel



Yr henoed



Cymunedau lleiafrifol/ar y cyrion



Plant a phobl ifanc



Grwpiau iechyd bregus



Cyngor Dinas Sheffield


Dod yn fwy cydnerth i hinsawdd sy'n newid

Saif dinas Sheffield wrth gymer pum afon, ble mae'r glawiad blynnyddol dros 1,500mm¹². O'r herwydd, mae llifogydd yn bryder difrifol i gyngor y ddinas. Ym mis Tachwedd 2019, profodd Sheffield ei hydref gwlypaf erioed, a arweiniodd at lifogydd eang a thrafferthion i fusnesau a seilwaith trafnidiaeth, gan adael cannoedd yn sownd¹³.

Gyda disgwyl achosion amlach a gwaeth o lifogydd, mae cynlluniau [amddiffyn rhag llifogydd](#) eisoes yn cael eu gweithredu, gan amddiffyn llawer o gartrefi a busnesau. Ochr yn ochr ag amddiffynfeydd llifogydd newydd a gwell, mae'r cynlluniau hyn yn gweithio gyda phartneriaid yn y dalgylch i ddarparu buddion ehangach gan gynnwys gwarchod a gwella bioamrywiaeth, cefnogi'r economi leol, a thrawsnewid dyfrffyrdd y ddinas i greu mannau i bobl eu mwynhau – er enghraift, prosiect [Limb Brook Nature-based Solutions Demonstrator project](#) a'r [Grey to Green project](#).

Yn ogystal, yn dilyn effeithiau dinistriol llifogydd 2019 a chan gydnabod yr angen am ddull cydlynus a chydweithredol, ffurfiodd Sheffield a llywodraethau lleol eraill gynghrair De Swydd Efrog. Gweithiodd y gynghrair hon gyda rhanddeiliaid lleol i gyflawni'r [Connected by Water Action Plan](#), sy'n amlinellu camau i leihau'r risg o lifogydd a chynyddu cydnerthedd cymunedau lleol.

Darllenwch fwy am sut mae Cyngor Dinas Sheffield yn addasu i effeithiau newid hinsawdd [yma](#).



Sheffield, y DU



I Sheffield, nid yw effeithiau'r hinsawdd yn rhywbeth ar gyfer y dyfodol gan ein bod ni eisoes yn profi llifogydd difrifol yn ein dinas. Felly, yng Nghyngor Dinas Sheffield, mae cynlluniau addasu a mesurau yn flaenoriaeth Iwyr.

Rydym yn gweithio gyda phartneriaid ar draws rhanbarth De Swydd Efrog ac yn ymgysylltu â'r rhai sydd fwyaf agored i effeithiau'r hinsawdd er mwyn sicrhau bod y mesurau cywir ar waith i ddiogelu a chynyddu cydnerthedd cymunedau lleol.

Mark Whitworth
Rheolwr Gwasanaeth –
Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd

12. Y Swyddfa Dywydd (2022) Sheffield Climate Pack. Ar gael yn: https://www.ukclimateresilience.org/wp-content/uploads/2020/12/sheffield-city-pack_august-2022.pdf

13. Newyddion y BBC (2019) Sheffield flooding: Torrential rain leaves city flooded. Ar gael yn: <https://www.bbc.co.uk/news/uk-england-50333233>



Rhwystrau sy'n atal awdurdodau lleol y DU rhag addasu i'r hinsawdd



21

awdurdod lleol yn y DU yn dweud bod angen cyllid ychwanegol ar gyfer prosiectau addasu




£17.4 biliwn

o fuddsoddiad ychwanegol yn angenrheidiol

Mae awdurdodau lleol y DU nid yn unig yn profi effeithiau peryglon newid hinsawdd heddiw, ond dengys data CDP bod dros 70% yn disgwyli'r peryglon hyn gynyddu neu waethyg ym y dyfodol. Er y brys i baratoi at effeithiau newid hinsawdd, mae awdurdodau lleol wedi adrodd amryw rhwystrau wrth geisio addasu.

Prif ffactorau a adroddwyd sy'n herio gallu awdurdodau lleol y DU i addasu



Fel yr amlygwyd uchod, adroddodd awdurdodau lleol y DU sawl rhwystr i addasu i newid yn yr hinsawdd gyda chapasiti cyllidebol yn cael ei grybwyll fwyaf. Yn ogystal, i'r rhai a ddywedodd bod angen cyllid ychwanegol ar brosiectau addasu, roedd y bwlch buddsoddi hwn yn £17.4bn.



Cyngor Dosbarth Dinas Derry a Strabane


Addasu i newid hinsawdd yn wyneb heriau

Yn 2020, ymrwymodd Cyngor Dosbarth Dinas Derry a Strabane i'r Addewid Hinsawdd i gyflawni dinas ac ardal sero-net, cydnerth o ran yr hinsawdd erbyn 2045. Mae'r Cyngor hefyd wedi dangos arweinyddiaeth ar yr hinsawdd fel yr awdurdod lleol cyntaf yng Ngogledd Iwerddon i ddatblygu cynllun addasu.

Mae Derry a Strabane yn profi tywydd poeth cynyddol yn yr haf a llifogydd amlach, fel llifogydd Awst 2017 a effeithiodd ar dros 400 o gartrefi a busnesau. Ar ben hynny, mae cartrefi incwm isel yn cael eu heffeithio'n anghymesur gan y peryglon hinsawdd hyn.

O'r herwydd, mae'r Cyngor wedi nodi bod her a chyfle addasu allweddol yn cynyddu gallu eu hamgylchedd a'u hystadau adeiledig i addasu. Mae Cyngor Dinas Derry a Strabane yn ymgymryd â llawer o fesurau gan gynnwys comisiynu asesiadau risg a chyfleoedd hinsawdd ar gyfer prosiectau adfywio mawr. Mae'r rhain yn nodi'r risgiau a achosir gan effeithiau newid hinsawdd yn ogystal â'r potensial i leihau allyriadau o ddatblygiadau newydd. Yn ogystal, mae gan y Cyngor swyddog cydherthedd cymunedol penodol sy'n ymgysylltu ag aelodau mwyaf bregus y gymuned ac asiantaethau lleol hanfodol fel y gwasanaethau brys er mwyn datblygu cynlluniau cydherthedd cymunedol effeithiol. Mae Cyngor Dosbarth Dinas Derry a Strabane hefyd wedi sefydlu tasglu newid hinsawdd traws-adrannol sy'n sicrhau bod pob tîm perthnasol yn gyd-gyfrifol am eu cynllun addasu a'i amcanion ac yn arwain arnynt gyda'i gilydd.

Gallwch ddod o hyd i Gynllun Addasu Cyngor Dosbarth Dinas Derry a Strabane [yma](#).




Er mwyn goresgyn yr heriau sy'n dod gyda sicrhau bod ein hamgylchedd a'n hystadau adeiledig, ynghyd â'r rhai sy'n byw yn dynt neu'n dibynnu arnynt, yn gydnerth i effeithiau newid yn yr hinsawdd, rydym yn addasu gyda'n gilydd. Rydym yn gweithio'n draws-adrannol i ddefnyddio arbenigedd traws-sectoraidd amhrisiadwy ac ymgysylltu â'r rhai sydd fwyaf agored i niwed fel rhan o'r broses cynllunio addasu.

Cathy Burns
Rheolwraig y Rhaglen Hinsawdd



Asesiadau risg a bregusrwydd hinsawdd

Mae cynnal asesiad cymunedol risg a bregusrwydd hinsawdd (CRVA) yn gam cyntaf sylfaenol i awdurdodau lleol feithrin cydnerthedd.



**o awdurdodau lleol
y DU yn dweud
fod ganddynt
asesiad risg a
bregusrwydd
hinsawdd yn 2022**



**o'r cynghorau
hynny yn ystyried
poblogaethau
bregus yn rhan o'r
asesiad**

Er bod y ganran sy'n dweud fod ganddynt yr asesiadau hyn wedi cynyddu 5% ers 2021, mae'n hanfodol bod mwy o awdurdodau lleol yn cynnal asesiad o'r fath yn y dyfodol. Mae data byd-eang CDP yn dangos bod dinasoedd sydd ag asesiad risg a bregusrwydd hinsawdd yn cynnal bron i chwe gwaith (5.7x) mwy o weithredoedd addasu na'r rhai sydd heb y cyfryw adroddiad¹⁴. Yn ogystal, mae ymchwil CDP yn dangos bod dinasoedd sy'n gweithredu ar yr hinsawdd mewn modd sy'n rhoi sylw canolog i bobl wedi nodi saith gwaith cymaint o gyd-fanteision â dinasoedd eraill¹⁵.

Yn fwy cyffredinol, mae addasu i newid yn yr hinsawdd yn aml yn flaenoriaeth is o'i gymharu â lliniaru, gydag addasu'n cael ei danariannu'n sylweddol. Fel yr amlinellwyd gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, mae amcangyfrifon yn awgrymu y gallai fod angen £10 biliwn y flwyddyn y degawd hwn i gynyddu cydnerthedd hinsawdd y DU¹⁶. Mae'r rhwystrau allweddol i fuddsoddi yn cynnwys mesurau addasu yn aml yn cynnig cyfradd enillion ariannol gyfyngedig, ansicrwydd risgau hinsawdd yn y dyfodol yn ogystal â'r ansicrwydd ynghylch effaith prosiectau addasu¹⁷. Er mwyn i fuddsoddiad addasu gael ei amcangyfrif a'i wireddu'n well, rhaid i lywodraeth y DU amlinellu ei gweledigaeth a'i thargedau yn glir ar gyfer cydnerthedd hinsawdd ar lefel genedlaethol a lleol¹⁸.

Yn wahanol i fesurau lliniaru lle mae lleihau allyriadau yn ddangosydd monitro posibl, gall dangosyddion meintiol cyfatebol fod yn anoddach i'w nodi ar gyfer mesurau addasu. I awdurdodau lleol, mae hyn yn gwneud monitro a gwerthuso prosiectau addasu, sy'n hanfodol ar gyfer ceisiadau ariannu ac adrodd mewnol, yn llawer mwy heriol¹⁹.

Gweler yr adran **camau nesaf** ar ddiwedd yr adroddiad hwn am awgrymiadau ar sut y gallai llywodraeth leol oresgyn yr heriau hyn.

14. CDP (2020) The co-benefits of climate action. Ar gael yn: <https://www.cdp.net/en/research/global-reports/co-benefits-climate-action>.

15. CDP (2022) Protecting People and the Planet. Ar gael yn: <https://www.cdp.net/en/research/global-reports/protecting-people-and-the-planet/>.

16. Climate Change Committee (2023) Investment for a well-adapted UK. Ar gael yn: <https://www.theccc.org.uk/wp-content/uploads/2023/01/Investment-for-a-well-adapted-UK-CCC.pdf>

17. Frontier Economics, Paul Watkiss Associates (2022) Barriers to financing adaptation actions in the UK. Ar gael yn: <https://www.theccc.org.uk/wp-content/uploads/2023/01/Barriers-to-financing-adaptation-actions-in-the-UK-Frontier-Economics-Paul-Watkiss-Associates.pdf>

18. Climate Change Committee (2023) Investment for a well-adapted UK. Ar gael yn: <https://www.theccc.org.uk/wp-content/uploads/2023/01/Investment-for-a-well-adapted-UK-CCC.pdf>

19. Bour, D., McGinn, C., and Pringle, P. (2014). Twelve reasons why climate change adaptation M&E is challenging. SEA Change CoP, Phnom Penh and UKCIP, Oxford.

Canllawiau CDP

Dylai'r asesiad risg a bregusrwydd hinsawdd asesu nid yn unig effeithiau daearyddol peryglon hinsawdd, ond hefyd yr effeithiau cymdeithasol, yn enwedig ar y rhai sydd fwyaf agored i niwed.

Dyma argymhellion CDP ar gyfer yr arferion gorau wrth lunio asesiad risg a bregusrwydd hinsawdd:

- ▶ Ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid ar hyd a lled yr awdurdod, gan gynnwys dinasyddion, busnesau lleol, a lefelau eraill o lywodraeth;
- ▶ Ystyriwch effeithiau ar wahanol garfanau o'r boblogaeth, yn enwedig poblogaethau bregus;
- ▶ Ystyriwch effeithiau ar wahanol sectorau o'r economi leol;
- ▶ Cynnwys gwahanol sefyllfaoedd a phosibiliadau gydag allyriadau gwahanol²⁰;
- ▶ Cynnwys 'risgiau pontio' – risgiau sy'n codi o'r newid i ddyfodol carbon isel; a
- ▶ Sefydlu prosesau i ddiweddar neu adolygu'r asesiad o leiaf bob pum mlynedd, o ystyried pa mor gyflym mae'r hinsawdd, yn ogystal â'r awdurdod lleol ei hun, yn newid.



20. Diffinnir y rhain fel sefyllfaoedd gwahanol yn y dyfodol o ran allyriadau a chynhesu, yn dibynnu ar sut y gweithredir i leihau nwyon tŷ gwydr byd-eang, a gallant ein helpu i ddeall agweddau ansicr allweddol am y dyfodol.

Addasu i'r hinsawdd ar waith: llwyddiant yn y DU

Er bod awdurdodau lleol y DU yn wynebu sawl her wrth addasu i newid yn yr hinsawdd, mae'r camau a adroddwyd i CDP yn 2022 yn dangos llawer o enghreifftiau o arweinyddiaeth wych o ran cydnerthedd ac addasu i newid hinsawdd.


Ers 2018 bu cynydd parhaus yng nghanran awdurdodau lleol y DU sy'n adrodd am nodau addasu, cynllun addasu a chamau addasu. Yn ogystal, canfu 98% o awdurdodau lleol fod gweithredu i addasu i newid yn yr hinsawdd yn dod â nifer o gyd-fanteision gan gynnwys effeithiau iechyd buddiol a mwy o ddiogelwch i boblogaethau sy'n agored i niwed.

Canran awdurdodau lleol y DU yn adrodd nod addasu



77%


o awdurdodau lleol y DU
yn dweud fod ganddyn
nhw gynllun gweithredu
hinsawdd sy'n mynd i'r
afael ag addasu



97%


o awdurdodau lleol y DU
yn gweithredu camau
addasu

Y 5 gweithred addasu uchaf a adroddwyd gan awdurdodau lleol y DU



98%

o awdurdodau lleol y DU a
adroddodd gamau addasu yn
dweud eu bod yn arwain at
fuddion ychwanegol.



Y pum mantais uchaf a adroddir yw:

64% |

Gwasanaethau bioamrywiaeth ac ecosystem wedi'u diogelu/gwell

52% |

Mwy o ddiogelwch/amddiffyniad i boblogaethau agored i niwed

69% |


Llai o effeithiau iechyd

53% |

Lleihad mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr

48% |

Amharu llai ar rwydweithiau ynni/trafnidiaeth/dŵr/cyfathrebu





Dinas Manceinion

Parc cymunedol sy'n defnyddio datrysiau o fyd natur i gynyddu cydnerthedd lleol

Mae [Eframwaith](#) a [Chynllun Gweithredu](#) Newid Hinsawdd Dinas Manceinion 2020-25, ar y cyd â'r [Strategaeth Glas a Gwydd](#) a'r [Strategaeth Bioamrywiaeth](#), yn manylu ar sut mae'r ddinas yn addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd a gwneud Manceinion yn ddinas iach, werdd, cymdeithasol gyflawn lle gall pawb ffynnu²¹. Mae'r dogfennau hyn yn seiliedig ar asesiad y ddinas o risgau a gwendidau hinsawdd lleol, a blaenoriaethau strategol, sy'n cynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid a dinasyddion, busnesau, a lefelau eraill o lywodraeth.

Mae glaw trwm, llifogydd dŵr wyneb a llifogydd afon yn bryderon mawr i'r ddinas. Fel rhan o fynd i'r afael â'r peryglon hyn, mae Manceinion yn canolbwytio ar reoli tir cynaliadwy drwy welliannau i seilwaith gwyrdd a glas ac atebion o fyd natur.

Er enghraifft, mae Parc Cymunedol West Gorton, parc 14,000 metr sgwâr a agorodd ym mis Gorffennaf 2020, yn fan gwyrdd hygrych, aml-bwrpas ar gyfer cymunedau lleol a gynlluniwyd i gynyddu cydnerthedd hinsawdd yr ardal gyfagos. Fe'i hadwaenir hefyd wrth yr enw 'Sponge Park,' mae'r dyluniad yn ymgorffori system ddraenio trefol cynaliadwy er mwyn caniatáu sianelu dŵr glaw o ffyrdd cyfagos drwy systemau draenio naturiol, gan arafu a lleihau'r llif i'r system ddraenio arferol. Cafodd y parc ei gyd-gynllunio gyda'r gymuned leol er mwyn sicrhau bod y parc yn bodloni anghenion trigolion.

Mae Parc Cymunedol West Gorton yn dangos sut y gall atebion o fyd natur helpu i fynd i'r afael ag effeithiau newid hinsawdd, gan gysylltu pobl, llefydd a natur, a chynyddu lles y gymuned leol.



Manceinion, y DU



Mae 'Sponge Park' West Gorton yn enghraifft berffaith o'r math o arloesi sydd ei angen. Mae'n cynrychioli ffordd holol newydd o feddwl am sut rydym ni'n ymdopi â dŵr gormodol, rhywbeth y byddai rhai yn dweud bod gennym ni ddigonedd ohono eisoes ym Manceinion, drwy ei ddal, ei reoli a'i ailddefnyddio. Mae'n ymateb dychymygus i'r her hon ac yn fan cymunedol gwyrdd newydd gwych i West Gorton yn ei hawl ei hun.

Y Cyngorydd Tracy Rawlins
Aelod Gweithredol dros yr Amgylchedd

21. Manchester City Council (2020) Zero Carbon Manchester. Ar gael o: https://www.manchester.gov.uk/info/500002/council_policies_and_strategies/3833/zero_carbon_manchester

Y camau nesaf i awdurdodau lleol y DU



Meithrin Dealltwriaeth

- ▼ Cynyddu dealltwriaeth o beryglon, risgiau a bregusrwydd o ran yr hinsawdd ar lefel yr awdurdod lleol drwy gynnal Asesiad Risg a Bregusrwydd Hinsawdd (CRVA), sy'n cwmpasu peryglon ac effeithiau cyfredol a thybiedig ar grwpiau a sectorau bregus²².
- ▼ Gwella llythrennedd hinsawdd adrannau'r cyngor a meithrin dealltwriaeth gyffredin o weithgareddau, anghenion a chyfleoedd cydherthedd presennol²³.
- ▼ Dadansoddi pa adnoddau sydd eu hangen ar gyfer prosiectau addasu, yn ogystal â'r staffio, y capaciti, a'r cynllunio a all helpu prif ffrydio amcanion hinsawdd a manteisio ar gyllid hinsawdd²⁴.
- ▼ Meithrin perthynas ag awdurdodau lleol blaenllaw i gasglu arferion gorau ar addasu a manteisio ar gyfleoedd i rannu gwybodaeth²⁵.



Dyfnhau Ymgysylltu

- ▼ Ymgysylltu'n frwd ag aelodau lleol o'r gymuned, yn enwedig blaenoriaethu grwpiau bregus sy'n profi risg dwysach i newid hinsawdd²⁶.
- ▼ Gweithio'n drawsadrannol i brif ffrydio newid hinsawdd i gynlluniau a gweithgareddau pob tîm yn y cyngor, e.e. sefydlu gweithgorau traws-adrannol ar newid hinsawdd²⁷.
- ▼ Meithrin perthynas â'r gymuned fusnes i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o risgiau'r hinsawdd ac i gydweithio ar brosiectau addasu a buddsoddiadau²⁸.
- ▼ Cydweithio â llywodraethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ar brosiectau addasu ar y cyd sy'n mynd i'r afael â risgiau a chyfleoedd traws-ffiniau o ran yr hinsawdd²⁹.

22. CDP (2022) Climate Risk and Vulnerability Assessment: Training guide for Cities. Ar gael yn: <https://www.cdp.net/en/cities/climate-risk-vulnerability-assessment-training-guide-for-cities>

23. The Carbon Literacy Project (2021) Making the Case for Carbon Literacy in Local Authorities. Ar gael yn: <https://carbonliteracy.com/wp-content/uploads/2021/05/Making-the-Case-for-Carbon-Literacy-V3.pdf>

24. Local Partnerships (2021) Climate Adaptation Toolkit. Ar gael yn: https://localpartnerships.org.uk/wp-content/uploads/2021/12/Local_Partnerships_Climate_Adaptation_Toolkit_v1.pdf

25. CDP (2022) Cities A List 2022. Ar gael yn: <https://www.cdp.net/en/cities/cities-scores>

26. CDP (2022) Protecting People and the Planet. Ar gael yn: <https://www.cdp.net/en/research/global-reports/protecting-people-and-the-planet/>

27. Adaptation Scotland (2019) Scotland Adapts: A Capability Framework for a Climate Ready Public Sector. Ar gael yn: <https://www.adaptationscotland.org.uk/how-adapt/your-sector/public-sector/framework>

28. CDP (2019) City-Business Climate Alliances. Ar gael yn: <https://www.cdp.net/en/research/global-reports/city-business-climate-alliance-guide>

29. CDP (2021) Working together to beat the climate crisis. Ar gael yn: <https://www.cdp.net/en/research/global-reports/working-together-to-beat-the-climate-crisis>





Gweithredu

- ▼ Datblygu cynllun addasu sy'n adlewyrchu'r risgau a'r peryglon blaenoriaeth, gan sicrhau yr ymgorfforir mecanweithiau i grwpiau bregus chwarae rhan weithredol a pharhaus mewn gwneud penderfyniadau addasu³⁰.
- ▼ Cysoni strategaethau lliniaru ac addasu i'r hinsawdd i fanteisio ar agweddau cyffredin o ran gweithredu integredig ar yr hinsawdd, e.e. gall mesurau ôl-osod leihau allyriadau a diogelu adeiladau rhag achosion o dywydd eithafol³¹.
- ▼ Cefnogi buddsoddiad mewn addasu ar gyfer yr hinsawdd drwy gysylltu adroddiadau amgylcheddol â chynllunio cyllideb, manteisio ar y berthynas rhwng CDP a'r Task Force on Climate-related Financial Disclosures (TCFD)^{32,33}.
- ▼ Prif ffrydio gweithredu ar yr hinsawdd i brosesau a gweithgareddau cyllid lefel ddinesig presennol er mwyn sicrhau bod gweithredu ar yr hinsawdd yn cael ei flaenoriaethu ar draws y sefydliad³⁴.
- ▼ Mabwysiadu dull cyson o gynllunio addasu; bod yn ymatebol i natur newidiol effeithiau'r hinsawdd a chyd-destun economaidd-gymdeithasol eich awdurdodaeth, ac ymgymryd â phrosesau monitro, gwerthuso a diweddar rheolaidd³⁵.



30. CDP (2022) Protecting People and the Planet. Ar gael yn: <https://www.cdp.net/en/research/global-reports/protecting-people-and-the-planet/>

31. Covenant of Mayors for Climate & Energy Europe (2022) Urban Adaptation Support tool, 5.4 Addressing climate change through adaptation and mitigation. Ar gael yn: <https://climate-adapt.eea.europa.eu/en/knowledge/tools/urban-ast/step-5-4/5-4-addressing-climate-change-through-adaptation-and-mitigation>

32. CDP (2022) Guidance Note on the TCFD Recommendations for City, State, and Regional Governments. Ar gael yn: https://cdn.cdp.net/cdp-production/cms/guidance_docs/pdfs/000/003/675/original/Guidance_Note_on_the_TCFD_Recommendations_for_City,_State,_and_Regional_Governments.pdf

33. C40 (2022) How to disclose your city's climate-related financial risks. Ar gael yn: <https://www.c40knowledgehub.org/s/article/How-to-disclose-your-citys-climate-related-financial-risks>

34. C40 (2022) How to mainstream climate action into your city's financial system. Ar gael yn: <https://www.c40knowledgehub.org/s/article/How-to-mainstream-climate-action-into-your-citys-financial-system>

35. Local Partnerships (2021) Climate Adaptation Toolkit. Ar gael yn: https://localpartnerships.org.uk/wp-content/uploads/2021/12/Local_Partnerships_Climate_Adaptation_Toolkit_v1.pdf

Adnoddau

Dyma rai adnoddau sy'n cynnwys canllawiau arfer gorau ac enghreifftiau ar addasu i newid hinsawdd:

- ▼ **Addasu i newid hinsawdd: canllawiau CDP i awdurdodau lleol y DU** – yn cynnwys canllawiau ac astudiaethau achos ar asesiadau risg a bregusrwydd hinsawdd, camau addasu, nodau, cynlluniau a monitro a gwerthuso.
- ▼ **Canllawiau Camau Nesaf CDP i ddinasoedd** – yn cynnwys arweiniad ar ymgysylltu gyda gwahanol randdeiliaid, tegwch o ran yr hinsawdd a chyllid hinsawdd.
- ▼ **Canllaw CDP ar argymhellion TCFD ar gyfer Llywodraethau Dinesig, Gwladwriaethol a Rhanbarthol** – yn cynnwys canllawiau ar gyfer adrodd yn unol ag argymhellion y Task Force on Climate-related Financial Disclosures.
- ▼ **Porth Data Agored CDP ar Ddinasoedd, Gwladwriaethau a Rhanbarthau** – yn cynnwys data newid yn yr hinsawdd a chynaliadwyedd a adroddwyd i CDP gan fwy na 1,200 o llywodraethau lleol. Gallwch weld cyfresi data penodol ar gynlluniau a gweithredoedd addasu hinsawdd llywodraeth leol.

Ymunwch â'r Cities Race to Resilience



Mae'r Race to Resilience yn ymgyrch fyd-eang i geisio cael busnesau, dinasoedd, rhanbarthau, a buddsoddwyr i arwain a chynorthwyo er mwyn helpu cymunedau rheng flaen i feithrin cydnerthedd ac addasu i effeithiau newid hinsawdd.

Mae'r Cities Race to Resilience yn canolbwntio ar gynnill ynghyd clymlaid o ddinasoedd sydd wedi ymrwymo i flaenorïaethu cydnerthedd a gweithredu'n gynhwysol ar yr hinsawdd. I ymuno, rhaid i feiri ac arweinwyr lleol arwyddo addewid y Cities Race to Resilience.

Mae **CDP-ICLEI Track** yn llwyfan adrodd cymeradwy ar gyfer Cities Race to Resilience.

Awduron yr adroddiad

Ravina Singh

Rheolwr Dinasoedd y DU

Helena Fazeli

Swyddog Ymgysylltu Dinasoedd y DU

I wybod mwy am adrodd blynnyddol, anfonwch

e-bost at:

citiesEMEA@cdp.net

Ar gyfer ymholiadau'r cyfryngau, cysylltwch â: media@cdp.net



Casglwyd y data ar gyfer yr adroddiad hwn ar y cyd gan CDP ac ICLEI

– Local Governments for Sustainability.

Gyda diolch i:

Esmée Fairbairn Foundation am eu cefnogaeth barhaus i raglen UK Cities CDP.

CDP Worldwide

4th Floor

60 Great Tower Street

London EC3R 5AZ

Tel: +44 (0) 20 3818 3900

citiesEMEA@cdp.net

www.cdp.net